Cyllid y Wlad

# Ffurflen Dreth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2003

UTR
Cyfeirnod Treth
Cyfeirnod y Cyflogwr

Dyddiad

Cyfeiraid Swyddfa Cyllid y Wlad

Cyfarwyddwr yr Ardal

Ffôn

Cyfeiriad dosbarth

Er
Gwybodaeth

## Darllenwch y dudalen hon yn gyntaf

*Bydd y saethau gwyrdd a'r cyfarwyddiadau gwyrdd yn eich arwain drwy eich Ffurflen Dreth*

*Mae'r **Hysbysiad** hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi yn ôl y gyfraith anfon Ffurflen Dreth ataf, yn cynnwys manylion eich incwm a'ch enillion cyfalaf ar gyfer y flwyddyn o 6 Ebrill 2002 i 5 Ebrill 2003.*

*Rwyf wedi anfon y ffurflen bapur hon atoch i'w chwblhau, neu gallech ddefnyddio fersiynau papur eraill sydd wedi'u cymeradwyo gan Gyllid y Wlad.*

*Mae manteision i chi os anfonwch eich Ffurflen Dreth trwy ddull electronig (gwasanaeth yn Saesneg yn unig). Gweler 'Dychwelyd eich Ffurflen Dreth trwy ddull electronig' gyferbyn.*

***P'un bynnag dull y dewiswch, dylech sicrhau bod eich Ffurflen Dreth, ac unrhyw ddogfennau y gofynnir amdanynt, yn fy nghyrraedd erbyn:***

- *y diweddaraf o'r **30 Medi 2003 a 2 fis ar ôl dyddiad anfon yr hysbysiad hwn** atoch os ydych am i mi gyfrifo eich treth,* **NEU**
- *y diweddaraf o'r **31 Ionawr 2004 a 3 mis ar ôl anfon yr hysbysiad hwn, fan bellaf**, neu byddwch yn atebol i gosb awtomatig o £100.*

***Dylech sicrhau bod eich taliad am unrhyw dreth sy'n ddyledus yn fy nghyrraedd erbyn 31 Ionawr 2004.*** *Fel arall, bydd yn rhaid i chi dalu llog ac efallai gordaliad.*

*Os bydd arnoch dreth, ac mae'r ddyled yn llai na £2,000, byddaf, os yw'n bosibl, yn ei chasglu drwy eich cod Talu Wrth Ennill am 2004-05, os bydd un gennych. Ond bydd angen i chi ddychwelyd eich Ffurflen Dreth erbyn un o'r dyddiadau a welir ar dudalen 3 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth – gweler **DYDDIADAU ALLWEDDOL** (neu cysylltwch â'ch cynghorydd treth, os oes un gennych).*

### Dychwelyd eich Ffurflen Dreth trwy ddull electronig

*Gallwch ei dychwelyd trwy ddull electronig mewn dwy ffordd. Defnyddiwch:*

- ***ein gwasanaeth ar y rhyngrwyd.** Ewch i www.inlandrevenue.gov.uk er mwyn anfon eich Ffurflen Dreth ar-lein – cewch ymateb ar unwaith a chaiff eich treth ei chyfrifo'n awtomatig,* **NEU**
- ***ein Gwasanaeth Adnau Electronig** (sydd ar gael trwy rai cynghorwyr treth).*

### Eich cyfrifoldebau

*Mae'r Ffurflen Dreth rwyf wedi anfon atoch yn cwmpasu incwm o gynilion a phensiynau a cheisiadau am lwfansau a ryddhad. Efallai y bydd angen ffurflenni eraill arnoch – 'Tudalennau atodol' – os bydd math arbennig o incwm neu enillion cyfalaf gennych. Defnyddiwch dudalen 2 i benderfynu os yw eich amgylchiadau yn golygu bod angen Tudalennau atodol arnoch.*

*Efallai y caiff eich Ffurflen Dreth ei gwirio. Cofiwch y codir cosbau am roi gwybodaeth ffug.*

***Eich** cyfrifoldeb **chi** yw sicrhau eich bod yn anfon Ffurflen Dreth gyflawn a chywir ataf, ond **rydym** yma **i'ch** helpu i'w chwblhau yn iawn.*

### Gallwn eich helpu mewn pedair ffordd

- *edrychwch ar eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth (a anfonwyd gyda'r Ffurflen Dreth hon). Dylent ateb y rhan fwyaf o'ch cwestiynau,* **NEU**
- *ewch i ymweld â'n gwefan yn www.inlandrevenue.gov.uk,* **NEU**
- *ffoniwch fi ar y rhif a welir uchod – pan fydd y swyddfa ar gau ffoniwch ein Llinell Gymorth ar 0845 302 1489 (yn Gymraeg) neu 0845 9000 444 (yn Saesneg),* **NEU**
- *ewch i un o Ganolfannau Ymholiadau Cyllid y Wlad – chwiliwch am 'Inland Revenue' yn y llyfr ffôn.*

SA100 (Cymraeg)



*Trowch drosodd*

# INCWM AC ENILLION CYFALAF *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2003*

**Cam 1**

Atebwch Gwestiynau 1 i 9 isod er mwyn darganfod a oes angen Tudalennau atodol arnoch er mwyn rhoi manylion incwm neu enillion cyfalaf neulltiol. Bydd tudalennau 6 a 7 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth yn eich helpu. (Gofynnwch i'r Llinell Archebu am gopi o'r Canllaw os nad ydwyf wedi anfon un atoch gyda'ch Ffurflen Dreth). Os atebwch yn gadarnhaol, gofynnwch i'r Llinell Archebu am Dudalennau a Nodiadau atodol perthnasol.

**Ffoniwch y Llinell Archebu ar 0845 302 1489 neu'r ffacs ar 01766 516 100 ar gyfer unrhyw rai sydd eu hangen arnoch (ar gau ar Ddydd Nadolig, Dydd San Steffan a Dydd Calan).**

*Gwnewch yn siŵr fod gennych y tudalennau atodol cywir ac yna ticiwch y blwch isod.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C1** | A oeddech yn weithiwr, neu'n ddeiliad swydd, neu'n gyfarwyddwr, neu'n weithiwr asiantaeth neu a dderbynioch daliadau neu fuddiannau gan gyn gyflogwr (ac eithrio pensiwn) yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2003? Os oeddech yn gyfarwyddwr cwmni yn y DG ond heb fod yn breswylydd a heb dderbyn cydnabyddiaeth, gweler y Nodiadau i'r Tudalennau Cyflogaeth, tudalen EN3, blwch 1.6. | OEDDWN ☐ | CYFLOGAETH ☐ |
| **C2** | A oedd gennych unrhyw incwm trethadwy o opsiynau cyfranddaliadau, cyfranddaliadau neu fuddiannau sy'n gysylltiedig â chyfranddaliadau yn ystod y flwyddyn? (Nid yw hyn yn cynnwys - difidendau, **neu** - gyfranddaliadau difidend sy'n peidio â bod yn atebol i gynllun annog perchenogaeth cyfranddaliadau a gymeradwyir gan Gyllid y Wlad o fewn 3 blynedd o'u caffael maent yn mynd yng Nghwestiwn 10). | OEDD ☐ | CYNLLUNIAU CYFRANDDALIADAU ☐ |
| **C3** | A oeddech yn hunan-gyflogedig (ond nid mewn partneriaeth)? (Ticiwch 'Oeddwn' os oeddech yn Enw yn Lloyd's) | OEDDWN ☐ | HUNAN-GYFLOGAETH ☐ |
| **C4** | A oeddech mewn partneriaeth? | OEDDWN ☐ | PARTNERIAETH ☐ |
| **C5** | A dderbynioch unrhyw rent neu incwm arall o dir ac eiddo yn y DG? | DO ☐ | TIR AC EIDDO ☐ |
| **C6** | A oedd gennych unrhyw incwm trethadwy o bensiynau neu fudd-daliadau dramor, neu gwmnïau tramor neu sefydliadau cynilo tramor, cronfeydd neu ymddiriedolaethau alltraeth dramor, neu o dir ac eiddo dramor neu enillion ar bolisïau yswiriant bywyd tramor? | OEDD ☐ | |
| | A ydych neu a allech fod wedi derbyn, neu wedi meddu ar yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu wedi elwa mewn unrhyw ffordd ar, incwm o endid tramor o ganlyniad i drosglwyddo asedion a wnaed yn y flwyddyn hon neu mewn blynyddoedd cynharach? | YDW ☐ | |
| | A ydych am wneud cais am ryddhad credyd treth ar gyfer treth dramor a dalwyd ar incwm neu enillion tramor? | YDW ☐ | TRAMOR ☐ |
| **C7** | A dderbynioch unrhyw incwm, neu a dybir i chi dderbyn incwm o ymddiriedolaeth, setliad neu weddill ystad person ymadawedig? | DO ☐ | YMDDIRIEDOLAETHAU AC ATI ☐ |
| **C8** | Enillion cyfalaf - darllenwch dudalen 7 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth. | | |
| | • Os gwaredwyd eich unig neu eich prif breswylfan, a oes angen y Tudalennau Enillion Cyfalaf arnoch? | OES ☐ | |
| | • A waredwyd asedion trethadwy eraill a oedd yn werth mwy na £15,400 gennych? | DO ☐ | |
| | • A oedd cyfanswm eich enillion trethadwy yn fwy na £7,700 neu a ydych am wneud cais neu ddewisiad am y flwyddyn? | OEDD ☐ | ENILLION CYFALAF ☐ |
| **C9** | A ydych yn honni nad oeddech yn breswylydd, neu ddim yn breswylydd arferol, neu heb breswylfan, yn y DG, neu yn breswylydd deublyg yn y DG a gwlad arall, am y flwyddyn gyfan neu ran o'r flwyddyn? | YDW ☐ | DI-BRESWYL AC ATI ☐ |

**Cam 2**

**Cwblhewch unrhyw Dudalennau atodol nawr CYN mynd ymlaen i Gam 3.**

**Defnyddiwch inc glas neu ddu i gwblhau eich Ffurflen Dreth a pheidiwch â chynnwys ceiniogau. Talgrynnwch eich incwm a'ch enillion i lawr i'r bunt agosaf. Talgrynnwch eich credydau treth a'ch didyniadau treth i fyny i'r bunt agosaf.**

Ticiwch y blwch hwn pan fyddwch wedi cwblhau eich Tudalennau atodol. ☐

**Cam 3**

Cwblhewch Gwestiynau 10 i 24. Os atebwch yn gadarnhaol, cwblhewch y blychau perthnasol. Os nad yw'n gymwys, ewch ymlaen i'r cwestiwn nesaf.

**C10** **A dderbynioch chi unrhyw incwm o gynilion a buddsoddiadau yn y DG?** **DO** ☐

**Os do,** cwblhewch flychau 10.1 i 10.26 fel y bo'n gymwys. Dim ond eich cyfran chi o unrhyw gynilion a buddsoddiadau ar y cyd y dylech ei chynnwys. Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 11.

## ■ *Llog*

- Llog o fanciau, cymdeithasau adeiladu a derbynwyr adneuon yn y DG (mae'n rhaid cynnwys llog o gyfrifon Rhyngrwyd yn y DG) - *os oes mwy nag un cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu ac ati gennych nodwch y **cyfanswm** yn y blychau.*

- nodwch unrhyw log o fanc, cymdeithas adeiladu ac ati **pan na fydd** unrhyw dreth wedi cael ei didynnu. (Mae'r rhan fwyaf o log wedi'i drethu gan eich banc neu gymdeithas adeiladu ac ati, felly gwnewch yn siŵr y dylech gwblhau blwch 10.1, yn hytrach na blychau 10.2 i 10.4).

| Swm trethadwy |
|---|
| 10.1 £ |

- nodwch fanylion eich llog o fanc, cymdeithas adeiladu ac ati **pan fydd treth** wedi cael ei didynnu. *Bydd y Daflen Waith ar dudalen 10 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth yn eich helpu i gwblhau blychau 10.2 i 10.4.*

| Swm **ar ôl** didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm gros **cyn** treth |
|---|---|---|
| 10.2 £ | 10.3 £ | 10.4 £ |

- Dosbarthiadau llog o ymddiriedolaethau uned a chwmnïau buddsoddi pen agored awdurdodedig yn y DG (mae dosbarthiadau difidend yn mynd isod)

| Swm **ar ôl** didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm gros **cyn** treth |
|---|---|---|
| 10.5 £ | 10.6 £ | 10.7 £ |

- Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (heblaw Bondiau FIRST Option, Bondiau Cynilo Cyfradd Sefydlog a'r £70 cyntaf o log o Gyfrif Cyffredin Cynilion Cenedlaethol)

| Swm trethadwy |
|---|
| 10.8 £ |

- Bondiau FIRST Option a Bondiau Cynilo Cyfradd Sefydlog Cynilion Cenedlaethol a Buddsoddiadau

| Swm **ar ôl** didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm gros **cyn** treth |
|---|---|---|
| 10.9 £ | 10.10 £ | 10.11 £ |

- Incwm arall o gynilion a buddsoddiadau yn y DG (heblaw difidendau)

| Swm **ar ôl** didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm gros **cyn** treth |
|---|---|---|
| 10.12 £ | 10.13 £ | 10.14 £ |

## ■ *Difidendau*

- Difidendau a dosbarthiadau cymhwysol eraill o gwmnïau yn y DG

| Difidend/dosbarthiad | Credyd treth | Difidend/dosbarthiad **plws** credyd |
|---|---|---|
| 10.15 £ | 10.16 £ | 10.17 £ |

- Dosbarthiadau difidend o ymddiriedolaethau uned a chwmnïau buddsoddi pen agored awdurdodedig yn y DG

| Difidend/dosbarthiad | Credyd treth | Difidend/dosbarthiad **plws** credyd |
|---|---|---|
| 10.18 £ | 10.19 £ | 10.20 £ |

- Difidendau sgrip o gwmnïau yn y DG

| Difidend | Treth dybiannol | Difidend **plws** treth dybiannol |
|---|---|---|
| 10.21 £ | 10.22 £ | 10.23 £ |

- Dosbarthiadau anghymwysol a benthyciadau a ddilëwyd

| Dosbarthiad/Benthyciad | Treth dybiannol | Swm trethadwy |
|---|---|---|
| 10.24 £ | 10.25 £ | 10.26 £ |



**Trowch drosodd**

## C11 A dderbynioch chi bensiwn trethadwy, blwydd-dâl ymddeol neu fudd-dâl Nawdd Cymdeithasol yn y DG?

*Darllenwch y nodiadau ar dudalennau 13 i 15 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

DO [ ]

**Os do,** cwblhewch flychau 11.1 i 11.14 fel y bo'n gymwys.
Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 12.

### Pensiynau a budd-daliadau'r Wladwriaeth

| | Swm trethadwy ar gyfer 2002-03 |
|---|---|
| • Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth - *nodwch **gyfanswm** eich hawliadau am y flwyddyn* | 11.1 £ |
| • Pensiwn Gwraig Weddw neu Lwfans Profedigaeth | 11.2 £ |
| • Lwfans Mam Weddw neu Lwfans Rhiant Gweddw | 11.3 £ |
| • Pensiwn Budd-dâl Marwolaeth Ddiwydiannol | 11.4 £ |
| • Lwfans Ceisio Gwaith | 11.5 £ |
| • Lwfans Gofal Analluedd | 11.6 £ |
| • Tâl Salwch Statudol, Thâl Mamolaeth Statudol a Thâl Tadolaeth Statudol a dalwyd gan Gyllid y Wlad | 11.7 £ |

| | Treth a ddidynnwyd | Swm gros **cyn** treth |
|---|---|---|
| • Budd-dâl Analluogrwydd trethadwy | 11.8 £ | 11.9 £ |

### Pensiynau a blwydd-daliadau ymddeol eraill

| | Swm **ar ôl** didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm gros **cyn** treth |
|---|---|---|---|
| • Pensiynau (heblaw pensiynau'r Wladwriaeth) a blwydd-daliadau ymddeol - *os ydych yn derbyn mwy nag un pensiwn neu flwydd-dâl, adiwch hwy at ei gilydd a chwblhewch flychau 11.10 i 11.12. Rhowch fanylion pob un ym mlwch 11.14* | 11.10 £ | 11.11 £ | 11.12 £ |

| | Swm y didyniad | |
|---|---|---|
| • Didyniad - *gweler y nodyn ar gyfer blwch 11.13 ar dudalen 15 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth* | 11.13 £ | 11.14 |

## C12 A wnaethoch chi unrhyw enillion ar bolisïau bywyd, blwydd-daliadau bywyd neu bolisïau ad-bryniant cyfalaf y DG neu dderbyn ad-daliadau o gronfeydd arian sy'n weddill o gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol?

DO [ ]

**Os do,** cwblhewch flychau 12.1 i 12.12 fel y bo'n gymwys.
Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 13.

| | Nifer y blynyddoedd | | Swm yr ennill (enillion) |
|---|---|---|---|
| • Enillion ar flwydd-daliadau a pholisïau yswiriant bywyd cymdeithasau cyfeillgar yn y DG lle na chaiff unrhyw dreth ei thrin fel treth a dalwyd | 12.1 | | 12.2 £ |

| | Nifer y blynyddoedd | Triniwyd treth fel treth a dalwyd | Swm yr ennill (enillion) |
|---|---|---|---|
| • Enillion ar bolisïau bywyd y DG lle y trinnir treth fel treth a dalwyd - *darllenwch dudalennau 15 i 18 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth* | 12.3 | 12.4 £ | 12.5 £ |

| | Nifer y blynyddoedd | Treth a ddidynnwyd | Swm yr ennill (enillion) |
|---|---|---|---|
| • Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd mewn ISAs a gafodd eu gwneud yn ddirym | 12.6 | 12.7 £ | 12.8 £ |

| | Swm |
|---|---|
| • Rhyddhad diffyg cyfatebol | 12.9 £ |

| | Swm a dderbyniwyd | Treth dybiannol | Swm plws treth dybiannol |
|---|---|---|---|
| • Ad-daliadau o gronfeydd arian sy'n weddill o gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol | 12.10 £ | 12.11 £ | 12.12 £ |

## C13 A dderbynioch chi unrhyw incwm trethadwy arall nad ydych eisoes wedi ei nodi rywle arall ar eich Ffurflen Dreth?

*Cwblhewch unrhyw Dudalennau atodol **cyn** ateb Cwestiwn 13.*
*(Mae Tudalennau Atodol ar gael o'r Llinell Archebu.)*

DO [ ]

**Os do,** cwblhewch flychau 13.1 i 13.6 fel y bo'n gymwys.
Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 14.

| | Swm **ar ôl** didynnu treth | Treth a ddidynnwyd | Swm **cyn** treth |
|---|---|---|---|
| • Incwm trethadwy arall – rhowch fanylion hefyd ym mlwch 23.5 – *darllenwch y nodiadau ar dudalennau 18 i 20 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth os gwnaethoch golledion* | 13.1 £ | 13.2 £ | 13.3 £ |

| | | Colledion a ddygwyd ymlaen | Colledion blynyddoedd cynharach a ddefnyddiwyd yn 2002-03 |
|---|---|---|---|
| • Ticiwch flwch 13.1A os yw blwch 13.1 yn cynnwys lwfansau cyfalaf uwch ar gyfer gwariant sy'n rhoi ystyriaeth i'r amgylchedd | 13.1A | 13.4 £ | 13.5 £ |
| | | Colledion 2002-03 a gariwyd ymlaen | |
| | | 13.6 £ | |

# RHYDDHAD ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2003

## C14 A ydych am wneud cais am ryddhad ar gyfer cyfraniadau pensiwn? YDW

*Peidiwch â chynnwys cyfraniadau a ddidynnwyd o'ch cyflog gan eich cyflogwr i'w cynllun pensiwn hwy, neu gynllun AVC perthynol gan y rhoddir rhyddhad treth yn awtomatig. Ond **dylech** gynnwys eich cyfraniadau i gynlluniau pensiwn personol a chynlluniau AVC rhydd.*

**Os ydw,** cwblhewch flychau 14.1 i 14.11 fel y bo'n gymwys.
Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 15.

■ ***Taliadau i'ch contractau blwydd-dâl ymddeol - cwblhewch flychau 14.1 i 14.5 yn unig ar gyfer polisïau a gychwynnwyd cyn 1 Gorffennaf 1988.*** *Gweler y nodiadau ar dudalennau 20 a 21 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Taliadau cymwys a wnaed yn 2002-03 | **14.1** £ | Taliadau 2002-03 defnyddiwyd mewn blwyddyn gynharach | **14.2** £ | Rhyddhad y gwnaed cais amdano: blwch 14.1 *llai* (blychau 14.2 a 14.3, ond nid 14.4) | |
| Taliadau 2002-03 i'w cario'n ôl nawr | **14.3** £ | Taliadau a ddygwyd yn ôl o 2003-04 | **14.4** £ | | **14.5** £ |

■ ***Taliadau i'ch cynlluniau pensiwn personol (yn cynnwys pensiwn cyfran ddeiliad)*** *- nodwch y swm a dalwyd gennych ynghyd â'r dreth ar y gyfradd sylfaenol (y taliad **gros**). Gweler y nodyn ar gyfer blwch 14.6 ar dudalen 22 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

| | | |
|---|---|---|
| Taliadau gros cymhwysol a wnaed yn 2002-03 | **14.6** £ | |
| Taliadau gros 2002-03 a gariwyd yn ôl i 2001-02 | **14.7** £ | Rhyddhad y gwnaed cais amdano: blwch 14.6 *llai* blwch 14.7 (ond nid 14.8) |
| Taliadau gros cymhwysol a wnaed rhwng 6 Ebrill 2003 a 31 Ionawr 2004 a ddygwyd yn ôl i 2002-03 *- gweler tudalen 22 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth.* | **14.8** £ | **14.9** £ |

■ ***Cyfraniadau i gynlluniau pensiwn eraill a chynlluniau AVC rhydd***

- Swm y cyfraniadau i gynlluniau'r cyflogwr **nas didynnwyd** o'r ffynhonnell cyn derbyn eich cyflog — **14.10** £
- Swm gros y cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol rhydd a dalwyd ym 2002-03 — **14.11** £

## C15 A ydych am wneud cais am un o'r mathau canlynol o ryddhad? YDW

*Os gwnaethoch unrhyw daliadau blynyddol, ar ôl y dreth sylfaenol, atebwch 'Ydw' i Gwestiwn 15 a chwblhewch flwch 15.9.*
*Os rhoddoch rodd i elusen ewch i Gwestiwn 15A.*

**Os ydw,** cwblhewch flychau 15.1 i 15.12 fel y bo'n gymwys.
Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 15A.

- Llog sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad ar fenthyciadau cymhwysol — Swm y taliad **15.1** £
- Taliadau cynhaliaeth neu alimoni a wnaethoch o dan orchymyn llys, asesiad Asiantaeth Cynnal Plant neu orchymyn neu gytundeb sy'n rhwymo'n gyfreithiol. — Swm y gwnaed cais amdano hyd at £2,110 **15.2** £

  Er mwyn gwneud cais am y rhyddhad hwn, mae'n rhaid fod naill ai chi neu eich cyn briod wedi bod yn 65 neu'n hŷn ar 5 Ebrill 2002. Felly, os **yw'ch** dyddiad geni, sydd wedi ei nodi ym mlwch 22.6, ar ôl 5 Ebrill 1935 yna mae'n rhaid i chi nodi dyddiad geni eich cyn briod ym mlwch 15.2A *- gweler tudalennau 23 a 24 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth* — Dyddiad geni eich cyn briod **15.2A** / /
- Tanysgrifiadau ar gyfer cyfranddaliadau Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro (hyd at £100,000) — Swm y gwnaed cais am ryddhad arno **15.3** £
- Tanysgrifiadau o dan y Cynllun Buddsoddiant Menter (hyd at £150,000) *- rhowch fanylion hefyd ym mlwch 23.5, gweler tudalen 24 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth* — Swm y gwnaed cais am ryddhad arno **15.4** £
- Rhyddhad Treth am Fuddsoddiad Cymunedol – y swm a fuddsoddwyd mewn blwyddyn/blynyddoedd blaenorol ac y mae rhyddhad yn ddyledus — **15.5** £
- Rhyddhad Treth am Fuddsoddiad Cymunedol – y swm a fuddsoddwyd yn y flwyddyn dreth gyfredol — **15.6** £

  Swm y gwnaed cais am ryddhad arno: blwch 15.5 + blwch 15.6 — **15.7** £
- Treuliau ôl-drefnu, colledion cyn-ymgorffori a ddygwyd ymlaen a cholledion ar warantau gostyngol perthnasol ac ati *- gweler tudalennau 24 a 25 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth* — Swm y taliad **15.8** £
- Blwydd-daliadau a thaliadau blynyddol — Taliadau a wnaed **15.9** £
- Taliadau i undeb llafur neu gymdeithas gyfeillgar ar gyfer budd-daliadau marwolaeth — Hanner swm y taliad **15.10** £
- Taliadau i gynllun budd-dâl gorfodol eich cyflogwr ar gyfer gwraig weddw, gŵr gweddw neu blant amddifad *- ar gael mewn rhai amgylchiadau – darllenwch y nodiadau ar dudalen 25 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth **yn gyntaf**.* — Rhyddhad y gwnaed cais amdano **15.11** £
- Rhyddhad y gwnaed cais amdano ar ddosbarthiad cymwys ar **ad-bryniant** cyfranddaliadau bonws neu warantau. — Rhyddhad y gwnaed cais amdano **15.12** £



**Trowch drosodd**

## C15A A ydych am wneud cais am ryddhad ar roddion i elusennau?

YDW ☐

*Os ydych wedi gwneud unrhyw daliadau Rhodd Cymorth atebwch 'Ydw' i Gwestiwn 15A. Dylech gynnwys taliadau Rhodd Cymorth i Glybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol yma. Gallwch ddewis i gynnwys, yn y Ffurflen Dreth hon, daliadau Rhodd Cymorth a wnaed rhwng 6 Ebrill 2003 a'r dyddiad a ddychwelwch y Ffurflen hon. Gweler tudalen 26 yn y Canllaw i'r Ffurflen Dreth a'r daflen Rhodd Cymorth a amgaewyd.*

Os 'ydw', ticiwch y blwch hwn ac yna darllenwch dudalennau 26 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth. Cwblhewch flychau 15A.1 i 15A.5 fel y bo'n briodol. Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 16.

- Rhodd Cymorth a thaliadau o dan gyfamodau elusennol a wnaed rhwng 6 Ebrill 2002 a 5 Ebrill 2003 — **15A.1** £
- Nodwch ym mlwch 15A.2 gyfanswm y taliadau 'unigol' a gynhwyswyd ym mlwch 15A.1 — **15A.2** £
- Nodwch ym mlwch 15A.3 swm y taliadau Rhodd Cymorth a wnaed ar ôl 5 Ebrill 2003 ond a gawsant eu trin fel petaent wedi eu talu yn y flwyddyn dreth 2002-03 — **15A.3** £
- Rhoddion o fuddsoddiadau cymwys i elusennau – cyfranddaliadau a gwarantau — **15A.4** £
- Rhoddion o fuddsoddiadau cymwys i elusennau – eiddo real — **15A.5** £

## C16 A ydych am wneud cais am lwfans person dall, lwfans pâr priod neu'r Credyd Treth Plant?

YDW ☐

*Cewch eich lwfans personol o £4,615 yn awtomatig.* ***Os cawsoch eich geni cyn 6 Ebrill 1938, nodwch eich dyddiad geni ym mlwch 22.6*** *- efallai y cewch lwfans personol uwch ar sail oedran.*

Os 'ydw', ticiwch y blwch hwn ac yna darllenwch dudalennau 26 i 31 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth. Cwblhewch flychau 16.1 i 16.33 fel bo'n briodol. Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 17.

■ *Lwfans person dall*

Dyddiad cofrestru (os mai hon yw'r flwyddyn gyntaf y gwneir cais) — **16.1** / /

Awdurdod lleol (neu gofrestr arall) — **16.2**

■ ***Lwfans pâr priod*** *- Er mwyn i chi wneud cais am lwfans pâr priod yn 2002-03 rhaid bod eich dyddiad geni chi, neu'ch gŵr neu'ch gwraig* ***cyn 6 Ebrill 1935****. Felly, rhaid eich bod wedi cyrraedd* ***65 oed cyn 6 Ebrill 2000*** *er mwyn gwneud cais am y lwfans yn 2002-2003.* ***Ceir cyfarwyddyd pellach yn eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth, yn dechrau ar dudalen 27.***

Os cawsoch chi **a'ch** gwraig neu'ch gŵr eich geni ar ôl 5 Ebrill 1935 ni allwch wneud cais; **peidiwch** â chwblhau blychau 16.3 i 16.13.

**Os y gallwch wneud cais** cwblhewch flychau 16.3 a 16.4 os ydych yn ddyn priod neu'n wraig briod ac rydych yn gwneud cais am hanner y lwfans pâr priod neu'n gwneud cais am y lwfans pâr priod i gyd.

- Nodwch eich dyddiad geni (os yw cyn 6 Ebrill 1935) — **16.3** / /
- Nodwch ddyddiad geni eich priod (os yw cyn 6 Ebrill 1935 **ac** yn hŷn na chi). — **16.4** / /

**Yna**, os ydych yn ddyn priod cwblhewch flychau 16.5 i 16.9. Os ydych yn wraig briod cwblhewch flychau 16.10 i 16.13.

- Enw llawn y wraig — **16.5**
- Dyddiad y briodas (os ar ôl 5 Ebrill 2002) — **16.6** / /
- Ticiwch flwch 16.7, neu flwch 16.8, os ydych chi neu'ch gwraig wedi dyrannu hanner, neu'r cyfan o, lleiafswm y lwfans iddi hi. — Hanner **16.7** ☐ Y Cyfan **16.8** ☐
- Nodwch ym mlwch 16.9 ddyddiad geni unrhyw gyn-wraig y buoch yn byw gyda hi am unrhyw gyfnod yn ystod 2002-03. ***Darllenwch 'Rheolau arbennig os ydych yn ddyn a briododd yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2003' ar dudalen 28 cyn cwblhau blwch 16.9.*** — **16.9** / /
- Ticiwch flwch 16.10, neu flwch 16.11, os ydych chi neu'ch gŵr wedi dyrannu hanner, neu'r cyfan o, lleiafswm y lwfans i chi — Hanner **16.10** ☐ Y Cyfan **16.11** ☐
- Enw llawn y gŵr — **16.12**
- Dyddiad y briodas (os ar ôl 5 Ebrill 2002) — **16.13** / /

■ ***Credyd Treth Plant*** *- hyd yn oed os ydych wedi cwblhau ffurflen gais ar wahân ar gyfer Credyd Treth Plant (CTP) ac wedi derbyn y rhyddhad yn eich cod treth, dylech gwblhau blychau 16.14 i 16.26, yn ôl y cyfarwyddiadau. Y mae unrhyw gyfeiriad at 'cymar' yn y cwestiwn hwn yn golygu person yr oeddech yn cydfyw ag ef/hi yn ystod y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2003 - eich gŵr neu'ch gwraig neu rywun yr oeddech yn byw gydag ef/hi fel eich gŵr neu eich gwraig.*

***Cewch gyfarwyddyd ar gyfer gwneud cais am CTP ar dudalennau 28 i 31 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth. Darllenwch y nodiadau cyn cwblhau eich cais yn arbennig os oedd naill ai chi neu eich cymar yn atebol i dreth ar gyfradd sy'n uwch na'r gyfradd sylfaenol yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2003.***

- Nodwch ym mlwch 16.14 ddyddiad geni plentyn sy'n byw gyda chi a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1986. ***Os oes plentyn, a gafodd ei eni ar neu cyn 6 Ebrill 2002, yn byw gyda chi, dylech sicrhau eich bod yn nodi eu dyddiad geni yn y blwch hwn, mewn blaenoriaeth dros wneud cais am blentyn hŷn.*** — **16.14** / /
- Ticiwch flwch 16.15 os mai eich plentyn chi ydoedd neu blentyn yr oeddech yn edrych ar ei ôl ar draul eich hun. Os nad oedd, ni allwch wneud cais am CTP - ewch i flwch 16.27, os yw'n gymwys, neu Gwestiwn 17. — **16.15** ☐
- Ticiwch flwch 16.16 os oedd y plentyn yn byw gyda chi **trwy gydol** y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2003. Os ydych wedi ticio blwch 16.16 ac — **16.16** ☐
  - roeddech yn geisydd unigol neu ar eich pen eich hun, rydych wedi gorffen y cwestiwn hwn; ewch i Gwestiwn 17,
  - mae gennych gymar, ewch i flwch 16.18.
- Os oedd y plentyn yn byw gyda chi am **ran o'r flwyddyn** yn unig, efallai mai dim on cyfran y CTP y bydd hawl gennych iddo. Nodwch ym mlwch 16.17 eich cyfran chi mewn £oedd o'r hyn rydych wedi cytuno ag unrhyw geiswyr eraill, y gallwch wneud cais amdano ar gyfer y plentyn hwn. Ond gadewch flychau 16.17 i 16.25 yn wag os gwahanoch neu os dechreuoch fyw gyda eich cymar yn ystod y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2003. Mae rheolau arbennig yn bodoli ar gyfer gweithio allan eich hawliad; gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR343: Claiming Children's Tax Credit when your circumstances change* sy'n egluro sut i gwblhau blwch 16.26. — **16.17** £

### *Credyd Treth Plant, parhad*

***Os oeddech yn byw gyda'ch cymar (ar gyfer CTP mae hyn yn golygu eich gŵr neu'ch gwraig, neu rywun yr oeddech yn byw gydag ef/hi fel eich gŵr neu eich gwraig) ar gyfer y flwyddyn gyfan hyd at 5 Ebrill 2003, cwblhewch flychau 16.18 i 16.25 fel bo'n gymwys.***

- Nodwch gyfenw eich cymar ym mlwch 16.18 — **16.18**
- Nodwch Rif Yswiriant Gwladol eich cymar ym mlwch 16.19 — **16.19**
- Ticiwch
  - flwch 16.20 os mai **chi** oedd yr un â'r incwm uchaf yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2003, — **16.20**

  **neu**
  - flwch 16.21 os mai **eich cymar** oedd â'r incwm uchaf yn y flwyddyn honno. — **16.21**
- Ticiwch flwch 16.22 os oedd y naill neu'r llall ohonoch yn atebol i dreth ar gyfradd sy'n uwch na therfyn y gyfradd sylfaenol yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2003. — **16.22**

*Os gwnaethoch dicio blychau 16.20 a 16.22 caiff eich hawliad ei leihau – gweler tudalen 30 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth; **ni all eich cymar wneud cais am CTP** - ewch i flwch 16.28, neu Gwestiwn 17 fel y bo'n gymwys.*

*Os gwnaethoch dicio blychau 16.21 a 16.22 caiff hawliad eich cymar ei leihau; **ni allwch wneud cais am CTP** - ewch i flwch 16.27, neu Gwestiwn 17, fel y bo'n gymwys.*

*Os **nad oedd yr un ohonoch** yn atebol ar gyfradd sy'n uwch na'r gyfradd sylfaenol a chi oedd yr un â'r incwm isaf **a***

- *nid ydych am wneud cais am hanner yr hawliad i'r CTP, ac*
- *nid wnaethoch ddewisiad er mwyn i'r CTP fynd i'r cymar sydd â'r incwm isaf*

*rydych wedi gorffen rhan hon eich Ffurflen Dreth - ewch i flychau 16.27 neu 16.28, neu Gwestiwn 17, fel y bo'n gymwys (dylai'ch cymar wneud cais am CTP os nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny).*

*Fel arall, ticiwch un o flychau 16.23 i 16.25*

- Gennyf fi oedd yr incwm uchaf a rwyf yn gwneud cais am ein hawliad cyfan i'r CTP — **16.23**
- Mae'r ddau ohonom yn gwneud ceisiadau ar wahân am hanner ein hawliad i'r CTP — **16.24**
- Roeddem wedi dewis cyn 6 Ebrill 2002, neu oherwydd ein hamgylchiadau arbennig, yn ystod y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2003 (gweler tudalen 31 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth), i'r cymar â'r incwm isaf i wneud cais am ein hawliad cyfan i'r CTP — **16.25**
- Os ydych wedi gwahanu neu wedi dechrau cydfyw â'ch cymar yn y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2003, nodwch ym mlwch 16.26 swm y CTP yr ydych yn gwneud cais amdano *(dilynwch y cyfarwyddyd yn Nhaflen Gymorth IR343: Claiming Children's Tax Credit when your circumstances change).* — **16.26** £

### *Trosglwyddo lwfansau sy'n weddill* - *gweler tudalen 31 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth cyn cwblhau blychau 16.27 i 16.33.*

- Ticiwch flwch 16.27 os ydych am i'ch priod gael y lwfansau sydd heb eu defnyddio — **16.27**
- Ticiwch flwch 16.28 os ydych am gael lwfansau sydd heb eu defnyddio gan eich priod — **16.28**
- Ticiwch flwch 16.29 os ydych am gael y CTP sydd heb ei ddefnyddio gan eich cymar — **16.29**
- Ticiwch flwch 16.30 os dylid trosglwyddo'r CTP sy'n weddill i'ch cymar — **16.30**

Rhowch fanylion yn y blwch 'Gwybodaeth Ychwanegol', blwch 23.5, ar dudalen 9
*– gweler tudalennau 31 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth i ddarganfod beth sydd ei angen.*

Os ydych am gyfrifo'ch treth eich hun, nodwch swm y lwfans sy'n weddill a sydd ar gael i chi.

- Lwfans person dall sy'n weddill — **16.31** £
- Lwfans pâr priod sy'n weddill — **16.32** £
- CTP sy'n weddill — **16.33** £

## **GWYBODAETH ARALL** *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2003*

**C17** **A ydych yn atebol i Ad-dalu Benthyciad Myfyriwr ar gyfer 2002-03 ar Fenthyciad Myfyriwr sy'n amodol ar Incwm?** — **YDW**

Os 'ydw', ticiwch y blwch hwn.
Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 18.

*Mae'n rhaid i chi ddarllen y nodiadau ar dudalen 31 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

**Os ydw**, a'ch bod yn cyfrifo eich treth eich hun nodwch yng Nghwestiwn 18, blwch 18.2A y swm y cyfrifwyd gennych sy'n ad-daladwy yn 2002-03.

## C18 A ydych am gyfrifo eich treth a, lle bo'n briodol, unrhyw Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr?

YDW

Defnyddiwch eich Canllaw Cyfrifo Treth yna cwblhewch flychau 18.1 i 18.8 fel y bo'n gymwys.

- Treth nas talwyd ar gyfer blynyddoedd cynharach **a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer 2002-03** — **18.1** £
- Treth sy'n ddyledus ar gyfer 2002-03 a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer blwyddyn ddiweddarach — **18.2** £
- Ad-daliad Benthyciad Myfyriwr sy'n ddyledus — **18.2A** £
- Cyfanswm y dreth, Cyfraniadau YG Dosbarth 4 ac Ad-daliad Benthyciad Myfyriwr sy'n ddyledus ar gyfer 2002-03 **cyn** y gwnaethoch unrhyw daliadau ar gyfrif *(nodwch y swm mewn cromfachau os yw'n ordaliad)* — **18.3** £
- Treth sy'n ddyledus am flynyddoedd cynharach — **18.4** £
- Treth a ordalwyd am flynyddoedd cynharach — **18.5** £
- Ticiwch flwch 18.6 os gwnewch gais i ostwng eich taliadau ar gyfrif am 2003-04. Dylech sicrhau eich bod yn nodi'r swm **gostyngol** eich taliad cyntaf ym mlwch 18.7. Yna nodwch pam yr ydych yn gwneud cais yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', blwch 23.5 ar dudalen 9 — **18.6**
- Eich taliad cyntaf ar gyfrif ar gyfer 2003-04 *(dylech gynnwys y ceiniogau)* — **18.7** £
- Nodwch unrhyw dreth ar gyfer 2003-04 yr ydych yn gwneud cais amdano yn awr — **18.8** £

## C19 A ydych am wneud cais am ad-daliad os ydych wedi talu gormod o dreth?

*(Os na fyddwch yn ticio 'Ydw' neu os bydd y dreth a ordalwyd gennych yn llai na £10, byddaf yn defnyddio'r swm sy'n ddyledus i chi er mwyn gostwng eich bil treth nesaf.)*

YDW

**Os ydw,** cwblhewch flychau 19.1 i 19.12 fel y bo'n gymwys.
Os nad yw'n gymwys, ewch i Gwestiwn 20.

A ddylai'r ad-daliad gael ei anfon:

- i'ch cyfrif banc neu'ch cyfrif cymdeithas adeiladu? *Ticiwch flwch 19.1 a chwblhewch flychau 19.3 i 19.7* — **19.1**

**neu**

- i gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu enwebai? *Ticiwch flwch 19.2 a chwblhewch flychau 19.3 i 19.12* — **19.2**

*Mae'n well gennym anfon ad-daliad i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. (Ond ticiwch flwch 19.8A* ***neu*** *flwch 19.8B os hoffech i'r siec gael ei hanfon atoch chi neu'ch enwebai.)*

Enw'r banc neu'r gymdeithas adeiladu — **19.3**

Cod didoli'r gangen — **19.4**

Rhif y cyfrif — **19.5**

Enw deiliad y cyfrif — **19.6**

Cyfeirnod y gymdeithas adeiladu — **19.7**

Os hoffech i'r siec gael ei hanfon:

- atoch chi yn y cyfeiriad ar dudalen 1, *ticiwch flwch 19.8A* — **19.8A**

**neu**

- at eich enwebai, *ticiwch flwch 19.8B* — **19.8B**

Os mai eich asiant yw'ch enwebai, *ticiwch flwch 19.9A* — **19.9A**

Cyfeirnod yr Asiant ar eich cyfer chi (os mai eich enwebai yw eich asiant) — **19.9**

Awdurdodaf

Enw eich enwebai/asiant — **19.10**

Cyfeiriad yr enwebai/asiant — **19.11**

Cod post

er mwyn derbyn ar fy rhan y swm sy'n ddyledus

**19.12** *Mae'n rhaid i'r awdurdod hwn gael ei lofnodi gennych. Ni fydd llungopi o'ch llofnod yn gwneud y tro.*

Llofnod

**C20** **A ad-dalwyd neu a wrthbwyswyd unrhyw dreth o 2002-03 eisoes gan eich Swyddfa Cyllid y Wlad neu'r Asiantaeth Budd-daliadau (Yr Asiantaeth Nawdd Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon)?**
*Darllenwch y nodiadau ar dudalen 32 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

DO

**Os do**, nodwch swm yr ad-daliad ym mlwch 20.1.

20.1 £

**C21** **A yw eich enw neu'ch cyfeiriad ar flaen y Ffurflen Dreth yn *anghywir*?**
*Os ydych yn cwblhau ffurflen sydd wedi ei chymeradwyo yn lle'r Ffurflen Dreth swyddogol, gweler y nodiadau ar dudalen 32 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth.*

YDY

**Os ydy**, ticiwch y blwch hwn a gwnewch unrhyw gywiriadau ar flaen y ffurflen.

**C22** **Rhowch fanylion personol eraill ym mlychau 22.1 i 22.7.** *Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon.*

Eich rhif ffôn yn ystod y dydd

22.1

Rhif ffôn eich asiant

22.2

a'u henw a'r cyfeiriad

22.3

Cod post

Eich dau enw cyntaf

22.4

Nodwch os ydych yn sengl, yn briod, yn weddw, wedi ysgaru neu wedi gwahanu

22.5

Rhowch eich dyddiad geni (Os cawsoch eich geni cyn 6 Ebrill 1938, efallai y cewch lwfans uwch ar sail oedran.)

22.6 / /

Nodwch eich rhif Yswiriant Gwladol
(os yw'n hysbys a heb fod ar dudalen 1 eich Ffurflen Dreth)

22.7

**C23** **Ticiwch flwch 23.1 i 23.4 os ydynt yn gymwys. Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol ym mlwch 23.5 isod (parhad ar dudalen 10, os bydd angen).**

Ticiwch flwch 23.1 os nad ydych am i unrhyw dreth sydd arnoch ar gyfer 2002-03 gael ei chasglu drwy eich cod treth. 23.1

Ticiwch flwch 23.2 os yw'r Ffurflen Dreth hon yn cynnwys ffigurau sydd dros dro am nad yw'r ffigurau terfynol gennych eto. Mae tudalennau 32 a 33 eich Canllaw i'r Ffurflen Dreth yn egluro'r amgylchiadau lle y gellir derbyn Ffurflenni Treth sy'n cynnwys ffigurau dros dro ac yn gofyn i chi roi gwybodaeth ychwanegol ym mlwch 23.5 isod. 23.2

Ticiwch flwch 23.3 os ydych am wneud cais yn awr am golledion masnachu 2003-04 neu golledion cyfalaf penodol. Nodwch ym mlwch 23.5 y swm a'r flwyddyn. 23.3

Ticiwch flwch 23.4 os ydych am wneud cais i gael derbyniadau ôl-drefnu neu dderbyniadau busnes eraill wedi'u trethu fel incwm o flwyddyn gynharach. Nodwch y swm a'r flwyddyn ym mlwch 23.5. 23.4

23.5 *Gwybodaeth ychwanegol*

**23.5** *Gwybodaeth ychwanegol, parhad*

## C24 Datganiad

**Rwyf wedi cwblhau ac yn dychwelyd y tudalennau canlynol atoch:**

*Yn yr ail flwch nodwch nifer y setiau o dudalennau atodol a amgaewyd gennych*

| | Ticiwch | Nifer |
|---|---|---|
| 1 I 10 O'R FFURFLEN HON | | |
| CYFLOGAETH | | |
| CYNLLUNIAU CYFRANDDALIADAU | | |
| HUNAN-GYFLOGAETH | | |
| PARTNERIAETH | | |
| TIR AC EIDDO | | |
| TRAMOR | | |
| YMDDIRIEDOLAETHAU AC ATI | | |
| ENILLION CYFALAF | | |
| DI-BRESWYL AC ATI | | |

**Cyn i chi ddychwelyd eich Ffurflen Dreth wedi'i chwblhau i'ch Swyddfa Dreth, mae'n rhaid i chi lofnodi'r datganiad isod.**
**Os rhowch wybodaeth ffug neu os na ddatgelwch unrhyw ran o'ch incwm neu enillion trethadwy, gallech fod yn atebol i gosbau ariannol a/neu gallech gael eich erlyn.**

**24.1** **Mae'r wybodaeth a roddais yn y Ffurflen Dreth hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.**

Llofnod

Dyddiad

**Prin iawn yw'r rhesymau pam y byddwn yn derbyn llofnod gan rhywun pan nad y person hwnnw sy'n cyflwyno'r Ffurflen Dreth, ond os ydych yn llofnodi ar ran rhywun arall, darllenwch y nodiadau ar dudalen 33 y Canllaw i'r Ffurflen Dreth, a:**

- nodwch ym mha rinwedd rydych chi'n llofnodi (er enghraifft, fel ysgutor neu fel derbynnydd)

**24.2**

- nodwch enw'r person rydych yn llofnodi ar ei ran/rhan

**24.3**

- Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad mewn PRIF LYTHRENNAU ym mlwch 24.4

**24.4**

Cod post

## Gwybodaeth Ychwanegol

# *Gwybodaeth Ychwanegol*